# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-12-09)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 22 Medi 2009**
**Amser: 09:30-10:35**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)
Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru
Mike German AC, Dwyrain De Cymru
Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc
Dan Collier, Dirprwy Glerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### Eitem 2: Deisebau Newydd

#### (i) P-03-204 Atebolrwydd i'r cyhoedd ac ymgynghoriadau cyhoeddus ym maes addysg uwch

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn holi faint o ymgynghori sydd ei angen ar gyfer gwneud newidiadau mewn sefydliadau addysg uwch a'r dulliau sy'n bodoli ar gyfer sicrhau ansawdd ac atebolrwydd yn y sector addysg uwch;

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu yn gofyn a yw eu hadroddiad arfaethedig ar addysg uwch yn mynd i'r afael â chraffu ar drosolwg o addysg uwch ac a fwriedir ymgymryd ag unrhyw waith pellach yn y maes hwn.

#### (ii) P-03-215 Gwahardd digwyddiadau gwleidyddol mewn ysgolion

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am y manylion canlynol:

sut y caiff yr ymgysylltiad gwleidyddol presennol ag ysgolion ei reoli a'i reoleiddio

sut y dylid rheoli a rheoleiddio ymgysylltiad gwleidyddol ag ysgolion yn y dyfodol

cynnydd o ran bodloni'r argymhellion a wnaeth adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yr Ail Gynulliad, 'Trefniadau Etholiadol yng Nghymru'; yn benodol y rhai sy'n ymwneud ag ymgysylltu â phobl ifanc

y rhan y mae ymgysylltiad gwleidyddol yn ei chwarae mewn gwersi ABCh

ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn iddynt sut y caiff y mater o ryngweithio gwleidyddol mewn ysgolion ei reoli gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru ac a oes canllawiau ar gael.

#### (iii) P-03-234 Coed Cadw (The Woodland Trust)

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf o ran y nod o greu 1,500 hectar o goetir newydd yn ystod y tair blynedd nesaf, gan gynnwys y camau gweithredu a ddefnyddiwyd i gyrraedd y targed.

**(iv) P-03-237 Cefn Gwlad Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i ofyn am fanylion y camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i:

gadw cefn gwlad:

annog datblygiadau diwydiannol i ddigwydd ar safleoedd tir llwyd:

sicrhau bod datblygiadau diwydiannol yn ecogyfeillgar:

sicrhau nad yw datblygiadau diwydiannol yn ddolur i'r llygad.

**(v) P-03-238 Llygredd ym Mornant Porth Tywyn**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i gael gwybod pa ganllawiau sydd ar gael o ran rheoli carthffosiaeth, pwy sy'n gyfrifol a pha gamau sy'n cael eu cymryd i'w reoli

ysgrifennu at y Pwyllgor Cynaliadwyedd i dynnu sylw at y mater gan ei bod yn bosibl y gallai hyn beri pryder ledled Cymru ac y gellir ei ystyried ganddynt yn eu rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

**(vi) P-03-239 Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgolion Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn am fanylion unrhyw ofynion a gaiff eu gosod ar sefydliadau addysg uwch Cymru i ddarparu rhaglenni dysgu gydol oes.

**(vii) P-03-240**

**Diogelwch ar ffordd yr A40 yn Llanddewi Felffre**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i wneud cais am y wybodaeth ddiweddaraf o ran y gwelliannau arfaethedig i'r rhan hon o gefnffordd yr A40, gan ofyn yn benodol pa fesurau dros dro a fwriedir ar gyfer gostegu traffig at ddibenion diogelwch yn ystod y cyfnod cyn cwblhau yn 2014.

**(viii) P-03-241**

**Llanelli Star - Achubwch ein carthffosydd**

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ystyried y ddeiseb hon gyda deiseb P-03-238 a chymryd yr un camau â'r hyn a fwriedir ar gyfer y ddeiseb honno.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**(i) P-03-088 Gwasanaethau bws gwledig yn Nhaliesin**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oes modd i'r Pwyllgor fynd â'r ddeiseb ymhellach

ysgrifennu at y Cyngor Cymuned lleol i'w hysbysu o'r gwaith a wnaeth y Pwyllgor.

**(ii) P-03-098 Ysgol Gyfun Rhydfelen**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oes modd i'r Pwyllgor fynd â'r ddeiseb ymhellach

ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Dysgu i'w hysbysu o'i benderfyniad

**(iii) P-03-099 Llwybr Ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn iddo ddarparu'r wybodaeth ganlynol i'r Pwyllgor:

copi o adroddiad Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru, y cyfeirir ato yn ei lythyr, cyn gynted ag y bydd ar gael

cadarnhad o'i benderfyniad o ran cynnwys y gwaith hwn yng nghyllideb y flwyddyn nesaf

**(iv) P-03-137 Hypothyroidedd yng Nghymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon o ganlyniad i ystyriaethau NICE.

**(v) P-03-157 Coleg Ffederal Cymraeg**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oes modd i'r Pwyllgor fynd â'r ddeiseb ymhellach.

**(vi) P-03-170 Mencap Cymru**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau i ofyn a yw'n fodlon diwygio polisi a strategaeth sy'n ymwneud â chyflogi pobl sydd ag anableddau dysgu o ganlyniad i'r pryderon gan Mencap Cymru;

ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a dysgu i ofyn a yw'n bwriadu gwneud unrhyw waith yn y maes hwn;

ysgrifennu at y Pwyllgor Cyfle Cyfartal i ofyn a yw'n bwriadu gwneud unrhyw waith yn y maes hwn.

**(vii) P-03-172 Adfer Fferi Abertawe-Cork**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y prif ddeisebydd, i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf o ran cynnydd ei ymgyrch;

### (viii) P-03-179 Myfyrwyr ôl-19 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a P-03-203 Addysg bellach ar gyfer pobl ifanc sydd â namau cymhleth

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb gan fod y Pwyllgor Menter a Dysgu wedi ymchwilio'n llawn i'r mater;

### (ix) P-03-181 Anemia Dinistriol

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hysbysu o ymateb y deisebydd a gofyn i'r Prif Swyddog Fferyllol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at drwyddedu Hydroxocobalamin ar gyfer defnydd isgroenol.

### (x) P-03-182 Cyllid Ewropeaidd

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebydd i ofyn a yw'r argymhellion yn ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r dirywiad economaidd rhyngwladol yn mynd i'r afael yn ddigonol ag amcanion y ddeiseb.

### (xi) P-03-183 Coleg Ceredigion

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebwyr i'w hysbysu o'r bwriad i gau'r ddeiseb, gan fod y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar y gweill, a gofyn am eu barn.

### (xii) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Lles i'w hysbysu o'r mater a'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd;

ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn iddi anfon manylion y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer recriwtio staff meddygol o dramor

### (xiii) P-03-197 Achub y Vulcan

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

roi trefn ar y dystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn a pharatoi adroddiad ar y materion sy'n ymwneud â rhestru lleol a ddaeth i'r amlwg wrth ystyried y ddeiseb hon.

### (xiv) P-03-200 Camlas Morgannwg

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am farn mewn ymateb i lythyr y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

**(xv) P-03-202 Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oes modd i'r Pwyllgor fynd â'r ddeiseb ymhellach;

gofyn i'r Pwyllgor Menter a Dysgu am y wybodaeth ddiweddaraf cyn toriad nesaf yr haf er mwyn caniatáu monitro cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion.

**(xvi) P-03-206 Nofio am ddim drwy'r flwyddyn i blant a phobl ifanc**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gynhyrchu fideo fer i grynhoi'r ymatebion a gafwyd a gofyn am ymateb y deisebwyr.

**(xvii) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ofyn i'r deisebydd ymateb i gynnwys y llythyrau a gafwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith a'r Dirprwy Weinidog dros Sgiliau.

**(xviii) P-03-209 Dilewch ffioedd dysgu (Cymru X)**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ofyn i'r deisebwyr ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor i lythyr y Gweinidog.

**(xix) P-03-212 Lleihau traffig yn Llanelwy**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

gau'r ddeiseb hon gan nad oes modd i'r Pwyllgor fynd â'r ddeiseb ymhellach;

argymell fod y deisebwyr yn cyfeirio'u hymdrechion at Gyngor Sir Ddinbych.

**(xx) P-03-213/235 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deisebau Secret World Wildlife Rescue a'r RSPCA)**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ailystyried y deisebau hyn unwaith y bydd y canfyddiadau ar gael o'r Ardal Astudiaeth Triniaeth Ddwys.

**(xxi) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - Agor ar ddydd Sadwrn**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant i ofyn a fydd yn ystyried y mater o ariannu'r Llyfrgell Genedlaethol fel rhan o'i waith craffu ar y gyllideb.

**(xxii) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn am gopi o'r canllawiau 'Pennu Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru' a oedd ar gael erbyn diwedd yr haf 2009.

**(xxiii) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

anfon copi o adroddiad y deisebydd at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gael ei sylwadau arno;

anfon copi o adroddiad y deisebydd at Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf i gael ei sylwadau arno;

ysgrifennu at Bennaeth Podiatreg ac Orthoteg Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf yn gofyn iddi ystyried cwrdd â Fforwm Pobl Hŷn dros 50 Cwm Cynon i drafod ei bryderon.

**(xxiv) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn a hoffai roi mewnbwn i'r adolygiad o Archwiliad o Ddigonolrwydd Gofal Plant;

ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog dros Sgilau am amseriad ar gyfer dechrau a gweithredu'r adolygiad.

**(xxv) P-03-226 Sands - yr elusen dros farw-enedigaethau a marwolaethau ymysg plant newydd-anedig**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at SANDS yn gofyn iddynt ddarparu ymateb i'r Pwyllgor i lythyr y Gweinidog.

**(xxvi) P-03-231 Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at anheddau preswyl**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Lywodraeth yr Alban i ofyn am ei rhesymeg dros gadw pellter o 2KM o leiaf rhwng tyrbinau gwynt ac ardaloedd preswyl.

**(xxvii) P-03-232 Coetir Ffynnone a Cilgwyn**

Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i:

ysgrifennu at Swyddfa Archwilio Cymru yn gofyn iddi hysbysu'r Pwyllgor o ganlyniad ei hymchwiliad i'r ffordd yr ymdriniodd Comisiwn Coedwigaeth Cymru â'r achos hwn ynghyd â phryd y mae'n disgwyl adrodd yn ôl.